# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**15 EBRILL 2019**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
A.J Morgan, Peiriannydd Traffig;
J Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Ystafell Gyfarfod Adfwyio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9:00am - 9:30am**

## I. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 26 MAWRTH 2019

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2019 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## III. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (RHYDAMAN) - CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD - (AMRYWIAD 14)

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r cyfyngiadau aros ar y stryd arfaethedig yn Rhydaman. Rhoddwyd manylion am y cyfyngiadau arfaethedig canlynol yn Atodiad 1 a 2 oedd ynghlwm wrth yr adroddiad:

i. **Cyfyngu ar aros, Stryd y Cei**
Cyflwyno lle aros am gyfnod cyfyngedig (1 awr), dydd Llun - dydd Sadwrn, 8am-6pm, heb ddychwelyd cyn pen 1 awr.

ii. **Heol Maescwarrau**
Cyflwyno gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg ar ei chyffordd â Maes Ifan.

Rhoddwyd gwybod yn dilyn ymgynghori cychwynnol ynghylch y cynigion â'r ymgyngoreion statudol, fod 3 gwrthwynebiad a deiseb ag arni 32 o enwau yn erbyn y cynigion a hysbysebwyd wedi dod i law, fel y manylwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad ynghyd ag ymatebion y swyddog iddynt.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i'r cynigion ynghyd â'r gwrthwynebiadau cysylltiedig a gafwyd.

Argymhellwyd, yn dilyn rhoi ystyriaeth briodol i'r gwrthwynebiadau ac ymateb yr Awdurdod, gymeradwyo'r cynigion, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Cyhoeddus o'r atodlen leoliadau (Atodiad 1).

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 nodi'r gwrthwynebiadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad 3;**
**3.2 cymeradwyo'r cynigion fel y manylwyd arnynt yn Atodiad 1.**

## 4. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (AC EITHRIO CAERFYRDDIN, LLANELLI A RHYDAMAN) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (AMRYWIAD RHIF 30) 2019

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r gorchymyn gwledig ynghylch cyfyngiadau aros ar y stryd arfaethedig. Rhoddwyd manylion am y cyfyngiadau arfaethedig canlynol yn Atodiad 1 a 2 oedd ynghlwm wrth yr adroddiad:

i. **Cwm-ann, yr A482** - Cyflwyno gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg, ar ochr ogleddol Stryd Treherbert, ger ei chyffordd â Chwrt Deri;

ii. **Heol y Gaer, Llanybydder** - Cyflwyno gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg ar ddwy ochr y gyffordd;

iii. **Heol Trallwm/Bryn Isaf, Llwynhendy** - Cyflwyno gwaharddiad aros ar unrhyw adeg a llwytho/dadlwytho wrth y gyffordd;

iv. **Parc Elkington, Porth Tywyn** - Cyflwyno gwaharddiad ar aros ar unrhyw adeg;

v. **Heol Danlan, Pen-bre** - Dirymu'r gwahardd aros ar unrhyw adeg presennol a chyflwyno gwaharddiad ar aros, dydd Llun – dydd Gwener rhwng 08:00 a 17:00.

Rhoddwyd gwybod yn dilyn ymgynghori cychwynnol ynghylch y cynigion â'r ymgyngoreion statudol, fod 20 gwrthwynebiad a deiseb ag arni 64 o enwau yn erbyn y cynigion a hysbysebwyd wedi dod i law, fel y manylwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad ynghyd ag ymatebion y swyddog iddynt.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i'r cynigion ynghyd â'r gwrthwynebiadau cysylltiedig a gafwyd.

Argymhellwyd, yn dilyn rhoi ystyriaeth briodol i'r gwrthwynebiadau ac ymateb yr Awdurdod, gymeradwyo'r cynigion, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Cyhoeddus o'r atodlen leoliadau (Atodiad 1), yn amodol ar wneud newidiadau i Heol y Gaer, Llanybydder, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**4.1 nodi'r gwrthwynebiadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad 3;**
**4.2 cymeradwyo'r cynigion fel y nodwyd yn Atodiad 1, yn amodol ar wneud newidiadau i Heol y Gaer, fel y manylir yn yr adroddiad.**

5. **GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (AC EITHRIO CAERFYRDDIN, LLANELLI A RHYDAMAN) (AMRYWIAD 31) (GWAHARDD ARBROFOL AR AROS A PHARCIO AR Y STRYD) 2018.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad er mwyn penderfynu ynghylch gwrthwynebiadau oedd wedi dod i law ynghylch y Gorchymyn Arbrofol ar y stryd mewn mannau ym Mharc Arfordirol y Mileniwm. Rhoddwyd manylion am y cyfyngiadau arfaethedig canlynol yn Atodiad 1 a 2 oedd ynghlwm wrth yr adroddiad:

i. Heol y Ffatri, Parc Gwledig Pen-bre;
ii. Y ffordd sy'n arwain i'r maes parcio, ger Parc Carafanau Shoreline, Pen-bre;
iii. Ffordd fynediad i faes parcio Meysydd Gŵyl, Llanelli;
iv. Ffordd fynediad o Ffordd Gyswllt Porth Tywyn i'r maes parcio.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol mai diben y cyfyngiadau arfaethedig oedd hwyluso diogelwch ffyrdd, llif y traffig ar hyd y darn o'r ffordd, yn enwedig ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys.

Rhoddwyd gwybod yn dilyn ymgynghori cychwynnol ynghylch y cynigion â'r ymgyngoreion statudol, cafwyd gwrthwynebiadau ynghylch Heol y Ffatri, Parc Gwledig Pen-bre yn unig, a oedd yn cynnwys 97 o wrthwynebiadau yn erbyn y cynigion a hysbysebwyd, fel y manylwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad ynghyd ag ymatebion y swyddog iddynt.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i'r cynigion ynghyd â'r gwrthwynebiadau cysylltiedig a gafwyd.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod gwrthwynebwyr yn pryderu'n bennaf nad oedd unrhyw drefniadau wedi eu gwneud ar gyfer faniau ceffylau, sy'n rhy fawr i'w parcio yn y maes parcio. Oherwydd y pryderon a gyflwynwyd, argymhellwyd gweithredu'r cynigion fel y nodwyd yn Atodiad 1, a'r newid a nodwyd yn 3.2.1.2 yr adroddiad, i gynnwys cyflwyno lle parcio ar gyfer faniau ceffylau a'u hôl-gerbydau, gyferbyn â'r fynedfa i'r maes parcio ger y cae pêl-droed, am oddeutu 30 metr, yn lle'r llinellau melyn dwbl presennol a ddisgrifir yn y gorchymyn.

**PENDERFYNWYD:**

**5.1 nodi'r gwrthwynebiadau fel y manylwyd arnynt yn Atodiad 3;**
**5.2 cymeradwyo'r cynigion a nodwyd yn Atodiad 1, yn amodol ar gynnwys y newid i gyflwyno lle parcio ar gyfer faniau ceffylau a'u hôl-gerbydau, gyferbyn â'r fynedfa i'r maes parcio ger y cae pêl-droed, am oddeutu 30 metr, yn lle'r llinellau melyn dwbl presennol a ddisgrifir yn y gorchymyn hwn;**
**5.3 bod y gorchymyn arbrofol yn cael ei wneud yn un parhaol**

____________________________ ____________________
**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **Y DYDDIAD**